

**Rhentu  
Doeth  
Cymru**  
**Rent  
Smart  
Wales**



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Ydych chi'n gosod eiddo yng Nghymru?

**Mae bellach yn ofynnol yn ôl y gyfraith i bob landlord gofrestru, ac i bob asiant a landlord sy'n rheoli eiddo ei hun gael trwydded.**

Mae'r gyfraith hon yn berthnasol i bob landlord ac asiant ag eiddo preswyl preifat yng Nghymru. Os ydych yn berchen ar eiddo rhent, yn gosod eiddo ar rent neu'n rheoli neu'n byw mewn eiddo rhent, bydd y gyfraith hon yn effeithio arnoch chi.



# Ai landlord ydych chi?

## Os 'ydw' yw'ch ateb i'r cwestiynau a ganlyn, yna bydd angen ichi gofrestru fel landlord:

Ydych chi'n berchen ar eiddo preswyl nad ydych chi'n byw ynddo?

**'Ydw' →**

Mae'r broses o gofrestru'n hawdd ac yn gyflym. Ewch ar-lein:

**rhentudoeth.llyw.cymru** neu ffoniwch **03000 133344** i ofyn am ffurflen bapur i'w llenwi a'i dychwelyd.

Ydych chi'n gadael i rywun arall fyw yn yr eiddo?

**'Ydw' →**

Rhaid i landlordiaid roi eu henw, eu manylion cyswllt a'u dyddiad geni. Rhaid iddynt hefyd roi cyfeiriad a manylion pob eiddo y maent yn ei osod ar rent. Mae ffi i'w dalu hefyd.

Ydych chi'n cael arian am adael iddynt fyw yn yr eiddo?

**'Ydw' →**

Yn ystod y broses gofrestru, rhaid i'r landlord ddweud pwy sy'n gyfrifol am osod a rheoli pob eiddo ar rent. Y person hwnnw fydd yn gorfod cael trwydded gan Rhentu Doeth Cymru. Os yw'r cyfrifoldebau'n cael eu rhannu, yna rhaid i bob un gael trwydded.

## **Rwy'n berchen ar eiddo ar y cyd ag eraill, oes raid inni i gyd gofrestru?**

Nac oes, gall un landlord gofrestru ar ran y landlordiaid eraill ond rhaid cynnwys eu henwau a'u dyddiad geni nhw hefyd ar y ffurflen gofrestru.

## **Rwy'n rhan o sefydliad sy'n gweithredu fel landlord eiddo sy'n cael ei rentu'n breifat, beth y mae angen inni ei wneud?**

Mae sefydliadau sy'n berchen ar eiddo ac yn ei osod yn landlordiaid, a rhaid iddynt gofrestru. Rhaid i'r person sy'n llenwi'r ffurflen gofrestru ar ran y sefydliad, gan gynnwys landlordiaid cymdeithasol, cyrff corfforaethol ac elusennau, gynnwys y rhif cofrestru perthnasol hefyd, fel ag y bo'n briodol.

## **Nid wyf yn rheoli'r eiddo o ddydd i ddydd. Mae gennyf asiant sy'n gwneud hynny ar fy rhan. Oes raid imi gofrestru?**

Oes, gan mai chi yw landlord cyfreithiol yr eiddo, eich cyfrifoldeb chi yw cofrestru.

## **Byddwch yn cofrestru am gyfnod o 5 mlynedd. Ar ôl hynny, bydd angen ichi ailgofrestru. Yn ystod y cyfnod cofrestru mae gan landlordiaid gyfrifoldeb cyfreithiol i ddiweddarau eu manylion e.e. os bydd eu cyfeiriad yn newid neu os byddant yn prynu neu'n gwerthu eiddo i'w osod yng Nghymru.**

## **Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn cofrestru?**

O 23 Tachwedd 2016 ymlaen, gall unrhyw unigolyn sydd heb gofrestru a chydymffurfio â'r gyfraith, ac sy'n cael ei ddyfarnu'n euog, wynebu cost benodedig o £150 neu, os yw'n mynd i'r llys, gall yr unigolyn wynebu dirwy o hyd at £1,000.

## **Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn diweddarau fy manylion neu os byddaf yn rhoi manylion anghywir neu gamarweiniol?**

Os penderfynir eich bod yn euog o beidio â diweddarau'ch manylion, gallech wynebu hysbysiad cosb benodedig o £150, neu os ewch i'r llys, gallech wynebu dirwy o hyd at £200.

Mae rhoi manylion anghywir neu gamarweiniol yn drosedd fwy difrifol ac mae'n arwain at hysbysiad cosb benodedig o £250 a does dim uchafswm ar y ddirwy y gallai llys ei gosod.

# Ydych chi'n rheoli eiddo sy'n cael ei rentu?

**Os 'ydw' yw'ch ateb i un o'r cwestiynau a ganlyn, yna bydd angen i chi wneud cais am drwydded:**

**Ydych chi'n landlord sy'n rheoli'ch eiddo'ch hun?**

**'Ydw' →**

Gwnewch gais am drwydded ar-lein: **rhentudoeth.llyw.cymru** neu ffoniwch **03000 133344** i ofyn am ffurflen bapur i'w llenwi a'i dychwelyd.

**Ydych chi'n asiant sy'n gosod ac yn rheoli eiddo ar ran landlordiaid?**

**'Ydw' →**

Cewch drwydded os ydych:


- ✓ yn 'addas ac yn briodol'
- ✓ wedi cael yr hyfforddiant priodol (gan gynnwys unrhyw un rydych yn ei gyflogi sy'n gyfrifol am unrhyw agwedd ar osod a rheoli eiddo)
- ✓ wedi talu'r ffi

**Ydych chi'n gyfaill, yn aelod o deulu neu'n gysylltiedig â landlord ac yn gofalu am eiddo y mae'n ei osod**

**'Ydw' →**

Mae hyfforddiant cymeradwy ar gael drwy Rhentu Doeth Cymru, neu gallwch ddilyn cyrsiau gan ddarparwyr cymeradwy eraill.

Chwiliwch am frand cymeradwy Rhentu Doeth Cymru pan fyddwch yn dewis cwrs addas.



## **Rwy'n berchen ar eiddo ar y cyd â rhywun arall ac mae'r ddau ohonom yn rhan o'r gwaith o osod a rheoli'r eiddo. Oes raid i'r ddau ohonom gael trwydded?**

Oes, bydd angen i'r ddau ohonoch gael trwydded landlord. Bydd y drwydded hon yn caniatáu ichi osod a rheoli unrhyw eiddo yng Nghymru y mae gennych fuddiant ynddo fel landlord, ac yn caniatáu ichi osod a rheoli eiddo.

## **Beth sy'n digwydd os nad ydw i'n cael trwydded?**

O 23 Tachwedd 2016 ymlaen, rhaid i landlordiaid sy'n rheoli eiddo ei hun gael trwydded er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith. Ar ôl y dyddiad hwnnw, os penderfynir eich bod yn euog o osod a rheoli eiddo yng Nghymru heb drwydded, gallech wynebu cosb benodedig o £250, neu os ewch i'r llys, nid oes uchafswm ar y ddirwy y gallech ei hwynebu.

## **Beth yw cost trwydded?**

Mae landlordiaid sy'n rheoli eiddo eu hunain ac asiantau'n talu ffioedd gwahanol am drwydded. Rhaid cwblhau'r hyfforddiant, a bydd y gost yn dibynnu ar y cwrs y byddwch yn ei ddewis a'r nifer y bydd angen eu hyfforddi er mwyn i'r ymgeisydd gael trwydded (e.e. bydd costau hyfforddi asiant sy'n cyflogi staff yn uwch na landlord sy'n rheoli eiddo ei hun nad yw'n cyflogi neb).

## **Beth sy'n digwydd ar ôl cael trwydded?**

Mae trwydded yn para am 5 mlynedd, ond er mwyn cadw'r drwydded, rhaid cadw at rai amodau. Un o amodau pob trwydded yw'ch bod yn cadw at God Ymarfer Llywodraeth Cymru.

**Os na all landlord sy'n rheoli eiddo ei hun neu asiant gael trwydded neu os caiff y drwydded ei thynnu oddi arnynt ar ôl iddynt dorri'r amodau, yna ni fyddant yn cael gosod na rheoli eiddo ar rent yng Nghymru.**

# Ai tenant ydych chi?

Mae Rhentu Doeth Cymru yn cynnig nifer o wasanaethau i denantiaid ac yn eu hannog i ddefnyddio [rhentudoeth.llyw.cymru](http://rhentudoeth.llyw.cymru)

- **gwirio ar-lein:** gall tenantiaid ddefnyddio'r wefan i gadarnhau bod landlord wedi cofrestru a bod gan yr asiant neu'r landlord drwydded i reoli eiddo ar rent yng Nghymru
- **rhoi gwybodaeth yn ddienw:** gall tenantiaid roi gwybod am eiddo sydd heb ei gofrestru ac am landlordiaid ac asiantau sydd heb drwydded
- **tudalennau'n cynnwys cyfarwyddyd i denantiaid:** mae cymorth a gwybodaeth ddefnyddiol ar gael i denantiaid, yn esbonio'u hawliau a'u cyfrifoldebau pan fyddant yn rhentu

## Am fwy o wybodaeth ac i wneud cais

Ewch i [rhentudoeth.llyw.cymru](http://rhentudoeth.llyw.cymru)  
neu ffoniwch **03000 133344**

Rhentu Doeth Cymru  
Blwch Post 1106  
CAERDYDD  
CF11 1UA

**Rhentu  
Doeth  
Cymru**  
**Rent  
Smart  
Wales**

